# Cenn@d

GORFFENNAF 28 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 22

## Colli 'cyfleoedd cenhadol' cyfnod y clo

A hithau'n gyfnod y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol, mewn dyddiau arferol byddai nifer o fentrau cenhadol i dystio ac efengylu yn cael eu cynnal. Dyma hefyd dymor y gwersylloedd Cristnogol megis Cwrs Ieuenctid Coleg y Bala, gwersylloedd gan Saint y Gymuned a'r Mudiad Efengylaidd a fyddai'n cael eu cynnal dros yr haf. Ond eleni, a'r digwyddiadau yma wedi eu gohirio eto unwaith yn rhagor, yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn trafod tybed beth fydd ein dulliau o dystio a chenhadu wrth edrych tua'r dyfodol.




### Gweinidogaeth a Chenhadaeth

Mae'n debyg y bydd llawer eglwys yn ystyried bod eu gwaith yn gwasanaethu Duw yn disgyn i ddau brif gategori, sef gweinidogaethu (gofalu am y bobl sydd o fewn teulu'r eglwys, yn ysbrydol ac yn gorfforol) a chenhadu (ymestyn allan i'r bobl hynny tu allan i fywyd yr eglwys gyda'r newyddion da am Iesu Grist). Dros gyfnod y clo, mae'n debyg y gellid diolch am y cyfleoedd a ddaeth i'n rhan i 'weinidogaethu' – a hynny drwy addoliad ac astudiaeth yn rhithiol a dros y we, yn ogystal â gweinidogaeth cyfeillgarwch, gofal bugeiliol, gwasanaethu cymuned a chynnal y gwan a'r bregus ynghanol unigrwydd a gofid. O'r cychwyn cyntaf, fe ymatebodd yr eglwysi i gynnal oedfaon a chyfarfodydd eraill yn rhithiol, a bu'n flaengar yn gofalu am yr anghenus mewn cymunedau ledled y wlad.

### Diffyg cyfleoedd cenhadol

OND, mae'n debyg y byddem hefyd yn gorfod cydnabod mai prin fu'r cyfleoedd i ymestyn allan yn genhadol a chyrraedd cenhedlaeth newydd o bobl. Heb os, bu'r cyfnod clo yn gyfle i dynnu i mewn rai unigolion a oedd efallai ar ymylon bywyd yr eglwys. Gwelwyd nifer yn ymuno'n rhithiol mewn oedfaon ar Zoom nad oeddent yn mynychu'r oedfaon yn y capel cyn hynny, ac mae hynny'n destun llawenydd wrth gwrs.

Ond fe brofodd y gwaith 'cenhadol' i fod yn fwy o her. Daeth y digwyddiadau ymestyn allan fel gwasanaethau Llan Llanast i ben am y tro, a chlybiau CIC ieuenctid, neu grwpiau 'Ti a Fi' a 'Panad a Chlonc' yn cael eu hatal hefyd. I'r sawl sy'n ymddiddori mewn ystadegau enwadol, gwelwyd lleihad yn nifer yr aelodau gan yr holl enwadau traddodiadol yng Nghymru dros ddegawdau lawer. Cafwyd lleihad yn nifer yr aelodau, mynychwyr oedfaon, nifer y bedyddiadau a phriodasau, ac mae'n debyg y bydd ystadegau'r ddwy flynedd ddiwethaf hyn yn dwysáu'r sefyllfa honno fwyfwy.

Mae sôn eisoes am nifer o gapeli na fydd yn ailagor eu drysau wedi'r cyfnod yma, ysgolion Sul yn dod i ben a llawer o deuluoedd wedi colli dwy flynedd o ddigwyddiadau teuluol. Mae sawl teulu'n ysu am gael ailddechrau oedfaon teuluol, ysgol Sul ayyb, ond beryg bod eraill wedi arfer efo patrwm gwahanol i'r Sul erbyn hyn. Bydd teuluoedd di-ri sydd heb fedyddio'u plant: tybed faint o ymholiadau a ddaw yn y misoedd nesaf, neu tybed a fydd yna ymbellhau eglwysig wedi digwydd yn y toriad byr hwn?

### Dim gwyliau na digwyddiadau eto eleni!

Mae cyfnod yr haf i ni yng Nghymru yn gyfnod cynnal nifer o wyliau cenedlaethol a rhanbarthol, ac yn arferol mae llawer menter genhadol Gristnogol wedi bod yn rhan o'r gwyliau hyn. Ym mis Mehefin, fel rhan o Ŵyl Eisteddfod yr Urdd, fe fydd gan Cytûn a Chyngor yr Ysgolion Sul babell ynghanol y maes. Pabell yn llawn bwrlwm, o rannu lolipops a phaentio wynebau i rannu straeon Beiblaidd a llenyddiaeth Gristnogol i blant, ac erbyn diwedd yr wythnos yn addasu i gynnig cyfleoedd i'r ieuenctid gael gofod i gyfarfod. Bydd yna drelar neu stondin gan y Mudiad Efengylaidd ar y maes hefyd, ac ar adegau gwahanol gwelwyd mentrau cenhadol lleol fel Trobwynt a Scripture Union yn trefnu gweithgaredd penodol.




(parhad ar y dudalen nesaf)

Lle i enaid gael llonydd
Tudalen 3

Cofio'r Arglwydd Elystan-Morgan
Tudalen 4

Eisteddfod Rithiol Cenn@d
Tudalen 5

## *Colli 'cyfleoedd cenhadol' cyfnod y clo*

*(parhad o dudalen 1)*

Ym mis Gorffennaf, mae'r sylw'n troi tuag at y Sioe Fawr yn Llanelwedd, ac eto mae Pabell yr Eglwysi ynghanol y maes yn cynnig croeso i bawb sydd am droi i mewn, gyda phaned a theisen gri, diodydd a gweithgareddau ar gyfer y plant, arddangosfa am waith cenhadol, dyngarol Cymorth Cristnogol, heb sôn am wasanaethau a sgyrsiau. Bydd tîm o oddeutu 12 o gaplaniaid yn camu allan o'r babell ac yn crwydro'r maes, gan gynnal sgyrsiau gydol y dydd, tra mae tîm o gaplaniaid iau yn gweithio ym mhentref Ieuenctid y sioe ymhlith pobl ifanc. Bob blwyddyn fe fydd pabell arall, sef Share Jesus, gyda thua 30 o wirfoddolwyr yn trefnu digwyddiadau i blant a theuluoedd, gan rannu'r newyddion da am Iesu, a threlar y Mudiad Efengylaidd hefyd yn barod i sgwrsio â phawb sy'n pasio heibio.

Erbyn mis Awst, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ŵyl arall lle gwelir yr eglwys yn ymestyn allan. Mae Pabell yr Eglwysi yn amlwg ar y maes, yn groesawgar drwy gynnig paned a sgwrs i bwy bynnag sy'n dymuno hynny. Bydd nifer o weinidogion a lleygwyr ar gael bob amser, a sawl sgwrs fugeiliol yn digwydd yn ddyddiol. Yn yr un modd ceir stondinau gan Gymorth Cristnogol a Chymdeithas y Beibl, ill dau eto'n cynnig croeso ac yn atgoffa eu cyd-Gymry o'r stori Gristnogol. Bydd criw'r Gorlan Gristnogol hefyd yn weithgar ar Faes B, yn cynnig eu paneidiau a thost, heb anghofio'r Pot Nwdls i wersyllwyr y maes ieuenctid, ac mor braf yw gweld tîm o oddeutu 20 o Gristnogion ifanc yn gwasanaethu eu cyd-Gymry yn y modd hwn. Bydd gan y Mudiad Efengylaidd hefyd dîm o wirfoddolwyr yn cynnal sgyrsiau â phobl, ac yn rhannu bractiau a chylchgronau Cristnogol.

Bydd stondinau eglwysig mewn ambell ŵyl ranbarthol hefyd, fel Tafwyl a Sioe Môn, ac mae bob amser yn braf gweld yr eglwys yn y mannau cyhoeddus hyn lle mae torfeydd yn ymgynnull. Ond bu i nifer o eglwysi hefyd fethu trefnu digwyddiadau mwy 'teuluol' a chenhadol eu naws oherwydd y cyfyngiadau caeth ar gyfarfod yn dorfol, a diffyg hyder gan lawer i fentro wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Er y tristwch o ddarllen am ganslo'r uchod, medrwn fod yn ddiolchgar yr un pryd fod cymaint â hyn yn digwydd mewn cyfnod cyn y pandemig, ac edrychwn ymlaen yn hyderus at 2022 er mwyn cael ailgydio yn llawer o'r mentrau hyn. Ni ddaeth pob dim i stop chwaith, a braf oedd clywed am ambell eglwys yn mentro trefnu digwyddiadau cenhadol. Bu i Caersalem, Caernarfon, drefnu digwyddiad Tanio'r Haf ym mis Gorffennaf. Meddai Rhys Llwyd, 'Yn ystod y cyfnod clo cynhaliwyd Llan Llanast ar Zoom, menter ar y cyd rhwng Caersalem a Seilo, Caernarfon, a hefyd Cynllun EfE sy'n gwasanaethu ardaloedd Llanrug, Llanberis a phentrefi cyfagos. Yn ogystal â bod yn fodd i gadw perthynas gyda theuluoedd yr eglwysi roedd yn gyfle cenhadol hefyd i wahodd teuluoedd newydd i mewn i weithgaredd yr eglwysi a chlywed hanesion o'r Beibl. Roedd teuluoedd yn cofrestru ymlaen llaw ac yna'n derbyn pecyn crefftau trwy'r post cyn i'r sesiwn ei hun ddigwydd dros Zoom ar brynhawniau Sul, unwaith y mis.

'Wrth i dymor yr haf ddechrau, penderfynwyd rhoi'r gorau i gyfarfod ar Zoom oherwydd y byddai atyniadau eraill yn denu'r teuluoedd ar brynhawniau Sul sych trwy'r haf. Felly, aed ati i drefnu un digwyddiad awyr agored er mwyn rhoi cyfle i'r teuluoedd oedd wedi bod yn cyfarfod dros Zoom gyfarfod ei gilydd wyneb yn wyneb. Trefnwyd y digwyddiad, sef Tanio'r Haf, yn ddiogel ac yn yr awyr agored yn dilyn canllawiau Covid. Daeth hanner cant ynghyd ac roedd hi'n fendith gweld pobl wyneb yn wyneb nad oeddem wedi cael y cyfle i'w gweld ers 18 mis! Ond y cwestiwn mawr nawr yw beth i'w wneud erbyn tymor yr hydref? Mynd yn ôl at Zoom ynteu cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb? Amser a ddengys, ond rhyw gymysgedd o'r ddau, dybiwn i.'




### Mabwysiadu 2022 fel 'blwyddyn o dystiolaeth'

Diolch am bob ymgais genhadol gyffelyb a drefnwyd, ond yn gyffredinol rhaid i ni gydnabod na lwyddwyd i gynnal cymaint o'r mentrau arferol yn 2020 na chwaith yn 2021. Bu'r effaith ar genhadaeth yr eglwys, yn lleol ac yn genedlaethol, yn llawer mwy andwyol na'r disgwyl, sy'n codi cwestiwn pwysig o sut mae modd i ni ymateb i'r her hon wrth edrych tua'r dyfodol. Gyda dros 95% o boblogaeth Cymru bellach y tu allan i weithgarwch yr eglwys, a llawer mwy o bobl bellach yn diffinio'u hunain fel 'digrefydd', mae angen i enwadau ac eglwysi Cymru ymateb ar fyrder i droi'r llanw.

Beth am i ni ymrwymo i edrych o'r newydd ar batrwm ein gwaith fel eglwysi ac enwadau? Tybed oes angen rhoi llai o bwyslais ar gynnal yr hyn sydd gennym eisoes a neilltuo mwy o egni a meddwl ar sut y gallwn gyrraedd cynulleidfa newydd sydd angen clywed y newyddion da am Iesu Grist. Mae pecyn fel 'Sôn am Iesu' gan Hope yn adnodd gwych i helpu pobl i siarad am eu ffydd, ac mae llawer o adnoddau lliwgar ac apelgar ar gael i'n helpu yn y gwaith.

Efallai fod yna her i'r enwadau hefyd i feddwl sut y gellir cydweithio a brandio hyn i gyd, er mwyn cyflwyno un llais a neges glir i bobl Cymru: boed mewn cenhadaeth leol neu mewn stondin ar faes yr Eisteddfod. A gall hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2022, er mwyn rhoi cenhadaeth a thystiolaeth 'nôl yn glir ac amlwg ar agenda ein gweithgarwch. Cofiwn am eiriau Rhufeiniaid 10: 'Sut maen nhw'n mynd i gredu ynddo heb glywed amdano? Sut maen nhw'n mynd i glywed os ydy rhywun ddim yn dweud wrthyn nhw? A phwy sy'n mynd i ddweud wrthyn nhw heb gael ei anfon? Dyna mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei olygu wrth ddweud: "Mae mor wych fod y rhai sy'n cyhoeddi'r newyddion da yn dod!" Mae'n rhaid clywed cyn gallu credu – clywed rhywun yn rhannu'r newyddion da am y Meseia.'

Dyma her i ni i gyd ar gyfer 2022 a thu hwnt!